# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 13 Hydref 2016

Amser: 09.15 - 14.17

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Siân Gwenllian AC<br>Bethan Jenkins AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Eleri Butler MBE, Welsh Women's Aid<br>Frances Beecher, Llamau<br>Jackie Stamp, New Pathways<br>Mutale Merrill, BAWSO<br>Fflur Elin, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru<br>Claire O'Shea, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru<br>Vivienne Laing, NSPCC Cymru<br>Sian Morris, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |

| | |
|---|---|
| | Joy Williams, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Lin Slater, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>Chris Overs, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>Wendy Sunderland-Evans, Abertawe Bro Morgannwg<br>Aideen Naughton, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Jon Antoniazzi (Clerc)<br>Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)<br>Hannah Johnson (Ymchwilydd)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Rhianon Passmore AC.

## 2 Ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: sesiwn dystiolaeth 1

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

Eleri Butler, Cymorth i Fenywod Cymru;

Frances Beecher, Grŵp Gweithredu Trais yn erbyn Menywod

Jackie Stamp, New Pathways

Mutale Merrill, BAWSO

2.2 Cytunodd Frances Beecher i roi manylion i'r Pwyllgor am y ffordd y mae'r Grŵp Strategol ar Asesu Llesiant yng Ngwent yn edrych ar ddeddfwriaeth ac yn alinio gwasanaethau yn unol â hynny

2.3 Cytunodd Mutale Merrill i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor am sefyllfa BAWSO ynghylch datganoli rhagor o bwerau i Gymru mewn perthynas ag arian ar gyfer gwasanaethau cymorth.

## 3 Ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: sesiwn dystiolaeth 2

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

Fflur Elin, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr

Claire O'Shea, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr

Vivienne Laing – Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)

3.2 Cytunodd Vivienne Laing i ddarparu manylion i'r Pwyllgor am ddeunydd y prosiect 'Lleisiau dros Dawelwch' NSPCC/Bawso.

3.2 Cytunodd Vivienne Laing i ddarparu manylion i'r Pwyllgor am ddeunydd y prosiect 'Lleisiau dros Dawelwch' NSPCC/Bawso.

## 4 Ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: sesiwn dystiolaeth 3

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Siân Morris, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Joy Williams, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

4.2 Cytunodd Siân Morris a Joy Williams i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn i'r Pwyllgor:

- manylion ynghylch a yw pob awdurdod lleol yng Nghymru yn datblygu strategaethau lleol drafft ar gyfer eu hardal eu hunain ar hyn o bryd;
- manylion ar Fwrdd Grŵp Arweinyddiaeth VAWDA Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, gan gynnwys ei gylch gorchwyl a manylion o beth, a sut, y mae'r Bwrdd wedi dysgu;
- barn ar sut y bydd awdurdodau lleol yn adrodd ynghylch sut y maent yn mynd i'r afael â gofynion y Ddeddf ac, wedyn, pwy a fydd yn casglu data ar berfformiad awdurdodau lleol;
- manylion a thystiolaeth ynghylch a yw'r canllawiau arfer da o ran cydberthnasau iach yn cyrraedd ysgolion unigol ledled Cymru;
- manylion sut y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gweithio gydag awdurdodau lleol wrth ddatblygu strategaethau lleol;

manylion sut y mae awdurdodau lleol yn ceisio barn dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

## 5 Ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: sesiwn dystiolaeth 4

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Lin Slater, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Chris Overs, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Wendy Sunderland-Evans, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Aideen Naughton, Iechyd Cyhoeddus Cymru

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

6.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ynghylch yr Ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

### 6.2 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ynghylch yr ymchwiliad ôl-ddeddfu i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015

6.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ynghylch yr Ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

### 6.3 Llythyr gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent ar waith yn y dyfodol yn ymwneud ag ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

6.3 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent ar waith yn y dyfodol sy'n ymwneud â mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 8 Ymchwiliad ar ôl deddfu i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: Ystyried y dystiolaeth

Trafododd Aelodau'r Pwyllgor y dystiolaeth yn ystod cyfarfod y bore.